

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Tŷ Bryn, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 05 Chwefror
2020

Dyddiad cyhoeddi: 07 Gorffennaf
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
3.	Beth nesaf?	22
4.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Tŷ Bryn yn y Bryn, Caerffili, CF83 8GL, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 05 Gorffennaf 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd yr amgylchedd yn groesawgar i bawb, ac roedd sylwadau'r cleifion am y practis yn gadarnhaol ar y cyfan.

Nodwyd bod y cyfathrebu rhwng y staff yn y practis yn dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Nodwyd gennym feysydd o bryder a allai beri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gan gynnwys prosesau ar gyfer sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol, a phrosesau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am hybu iechyd, yn ogystal â chlinigau rheolaidd ar gyfer cyflyrau parhaus
- Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cadw i safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal cofnod clir o hyfforddiant a chydymffurfiaeth staff
- Dylai'r practis gynnig llwybr clir i gleifion roi adborth i'r practis

Ymdriniwyd â'n pryderon am hyfforddiant staff a'r broses recriwtio drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi

bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Tŷ Bryn yn darparu gwasanaethau i tua 10,500 o gleifion yn ardal **Bedwas**. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys 13 o feddygon teulu, dwy nyrs, un cynorthwydd gofal iechyd, tri aelod o staff gweinyddol, dau reolwr practis cynorthwyol ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinig diabetes
- Gosod dulliau atal cenhedlu
- Clinig anadlu
- Mân lawdriniaethau
- Clinig gwrthgeulyddion
- Retinophomi

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u bod yn cael eu trin â pharch.

Roedd yn amlwg bod y tîm o staff yn canolbwyntio ar yr angen i greu amgylchedd digyffro a phleserus yn y practis. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisïau priodol ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar y gwasanaethau y maent yn eu cael.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siarodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn gleifion ers mwy na dwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Rwy'n gymharol newydd i'r practis hwn ac o gymharu â'r practis blaenorol mae'n llawer mwy effeithlon, gofalgar, cydymdeimladol ac, yn bwysicaf oll, hygyrch pan mae angen apwyntiadau”

“Bob amser yn gyfeillgar a phroffesiynol. Rwy'n hapus iawn gyda'r gofal iechyd rwy'n ei gael yma”

“Pan rwy'n siarad â phobl y tu allan i'r ardal, rwy'n sylweddoli pa mor dda ydych chi”

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys:

“Cael ychydig mwy o amser gyda'r Meddyg, dim digon o amser gyda'r Meddyg, gormod o ruthro.”

“Darparu gwasanaeth sgrinio iechyd meddwl bob mis”

“Mwy o help, iechyd meddwl”

“Mae rhai Meddygon Teulu yn gwrando'n fwy ar y claf – weithiau rydych chi'n teimlo eich bod chi'n achosi trafferth”

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o bosteri wedi'u harddangos yn ardaloedd aros y practis er mwyn i gleifion eu darllen wrth iddynt aros am eu hapwyntiad. Roedd y rhain yn cynnwys bwyta'n iach, rheoli pwysau a rhoi'r gorau i smygu.

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis. Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch a'u croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Roedd y dderbynfa wedi'i lleoli yn union y tu mewn i fynedfa'r practis, wrth ymyl yr ystafell aros. Ar y diwrnod, gwelsom fod y trefniadau presennol yn golygu nad oedd galwadau ffôn gan y cyhoedd yn cael eu derbyn wrth ddesg y dderbynfa, gan sicrhau bod preifatrwydd cleifion yn cael ei barchu.

Yn ystod y dydd, gwelsom un claf â symudedd cyfyngedig yn ei chael hi'n anodd defnyddio drws mewnol y fynedfa, nad oedd yn un awtomatig. Efallai yr hoffai'r practis ystyried sut i sicrhau bod y fynedfa'n hygyrch i'r rhai ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau er mwyn helpu i ddiogelu preifatrwydd cleifion. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori wedi'u rhannu'n ddwy ardal, gyda'r gwely triniaeth mewn ardal ar wahân. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion ddadwisgo'n breifat, pan oedd angen, cyn unrhyw driniaeth neu archwiliad. Gwelsom y gellid cloi'r drysau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Dywedodd tua dau o bob tri chlaf a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau y gallent weld eu dewis feddyg.

Roedd nifer o'r staff wedi'u hyfforddi i ddarparu gwasanaeth hebryngwr priodol i gleifion yn ystod archwiliadau personol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei hysbysebu'n glir i gleifion. Dylai'r practis sicrhau y caiff y gwasanaeth hebryngwyr ei hysbysebu'n glir i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff y gwasanaeth hebryngwyr ei hysbysebu'n glir i gleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod hysbysfyrddau yn y practis, megis hysbysfwrdd gofalwyr a hysbysfwrdd cymunedol. Roedd hyn yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i'r cleifion am eu cymuned leol yn ogystal â grwpiau cymorth a all fod ar gael iddynt.

Roedd gan y practis daflen a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y practis a'r gwasanaethau yr oedd yn eu cynnig. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn y practis. Yn ogystal, gallai'r bobl gael gwasanaeth yn eu dewis iaith, a gwelsom dystiolaeth y byddai'r llinell iaith yn cael ei chynnig os nad Cymraeg neu Saesneg oedd mamiaith un o'r cleifion. Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'¹.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn

¹ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

ffordd ddealladwy. Hefyd, dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Roedd gan y practis ddolen sain er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed i gyfathrebu, a gwelsom boster yn hysbysebu hyn yn yr ardal aros.

Gofal amserol

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn 'fodlon iawn' ar oriau agor y practis. Cadarnhaodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dyweddwyd wrthym fod ceisiadau am apwyntiadau ar yr un diwrnod yn cael eu bodloni os oedd cleifion yn cysylltu â'r feddygfa cyn 10am. Hefyd, roedd meddyg teulu ar ddyletswydd ar gael ar gyfer apwyntiadau brys. Roedd y practis yn hyrwyddo Dewis Fferyllfa² ar gyfer mân anhwylderau. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd bron bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un 'da iawn' neu 'da'.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Hefyd, disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad, gan ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion ar lafar.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn, rhai ag anawsterau symudedd a rhai â chadeiriau gwthio, gan fod ardal y cleifion i gyd ar y llawr gwaelod.

2

http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services_Leaflet_Welsh.pdf

Roedd y practis yn cynnal clinigau i gleifion ag anghenion gofal iechyd penodol, fel asthma a diabetes, er mwyn eu helpu i reoli eu cyflyrau.

Hawliau pobl

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifir gennym drwy'r adran hon yn nodi bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Nid oedd gan y practis broses ffurfiol ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ei hun. Roedd gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion gweithredol a oedd yn cadw blwch sylwadau yn ardal y dderbynfa. Roedd yr adborth hwn yn cael ei roi i'r uwch-reolwyr yn ystod y tri chyfarfod misol rhwng y Grŵp Cyfranogiad Cleifion a'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn galluogi cleifion i roi adborth yn uniongyrchol i'r practis, a'i fod yn adolygu'r adborth hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am y canlyniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn galluogi cleifion i roi adborth yn uniongyrchol i'r practis, a'i fod yn adolygu'r adborth hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am y canlyniadau.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd gan y practis bolisiâu cynhwysfawr ar waith ar gyfer archwilio'r cyfarpar brys a'r meddyginiaethau.

Nododd y staff fod cydberthynas waith gadarnhaol rhwng y timau clinigol a'r timau anghlinigol, a oedd yn grymuso'r staff i godi pryderon pe byddent yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Wrth fynd o amgylch y practis, gwelsom ei fod yn lân ac yn dilyn trefn dda, a oedd yn lleihau'r risg y byddai'r cleifion a'r staff yn baglu neu'n cwmpo. Gwelsom fod asesiad risg amgylcheddol ar waith

Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei archwilio. Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis meddygon teulu yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr holl ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd glanweithwyr dwylo ar gael i'r meddygon teulu a'r nyrsys yn

yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd glanweithydd dwylo ar gael ar waliau'r practis i bawb ei ddefnyddio.

Nodwyd gennym nad oedd y practis yn defnyddio llenni untro yn y meddygfeydd, ac ni allai ddangos amserlen benodol ar gyfer glanhau'r llenni yn y meddygfeydd. Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau glanhau priodol ar waith a'u bod yn cael eu dogfennu er mwyn sicrhau bod y llenni'n cael eu cynnal i safon briodol.

Ar sail sampl o gofnodion y staff, ni allem fod yn fodlon bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar reoli heintiau. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar atal a rheoli heintiau er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod pob aelod o staff clinigol y practis wedi cael ei sgrinio'n briodol ar gyfer statws imiwneiddio Hepatitis B. Roedd asesiad risg ychwanegol ar waith ar gyfer staff nad oedd â'r lefelau priodol o imiwnedd. Mae hyn yn diogelu'r staff a'r cleifion rhag achosion posibl o groes-heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y llenni'n cael eu cynnal i safon glinigol;
- bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer storio a thrin a thrafod cyffuriau a chyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (megis achos o gwmpo). Mae Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru³ yn pennu bod rhwymedigaeth ar sefydliadau/darparwyr gofal iechyd i ddarparu

³ [Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru](#)

gwasanaeth dadebru o ansawdd da. Gwelsom fod yr offer argyfwng o safon dda a'i fod yn cynnwys yr holl gyfarpar sy'n ofynnol gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i archwilio a chofnodi'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr eitemau yn aros yn ddiogel ac yn barod i'w defnyddio ac o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) bob 18 mis ar hyn o bryd. Mae Cyngor Dadebru y DU yn nodi y dylai pob aelod o'r staff clinigol mewn lleoliad gofal sylfaenol gael yr hyfforddiant diweddaraf ar CPR bob blwyddyn, ac yn argymhell y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant blynyddol. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru y DU. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth o'r adroddiad hwn.

Roedd meddyginiaeth a brechiadau yn cael eu storio mewn oergell feddyginiaeth a oedd wedi'i chloi. Nodwyd gennym fod gwiriadau rheolaidd wedi cael eu cynnal ar dymheredd yr oergell feddyginiaeth. Mae'n bwysig bod meddyginiaethau a brechiadau yn cael eu storio ar y tymheredd cywir er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y tymheredd yn cael ei wirio bob dydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar CPR yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru y DU

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

[Gwelsom fod gan y practis bolisiâu diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Nodwyd arweinydd diogelu'r practis yn y polisi. Roedd canllawiau diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r staff fel rhan o'u ffeil polisiâu a gweithdrefnau.

Ar ôl adolygu sampl o gofnodion y staff, gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.]

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau bod cyfarpar meddygol yn cael ei wasanaethu a'i galibradu er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[Roedd gan y practis drefniadau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y trefniadau ar gyfer rhannu rhybuddion diogelwch a dderbyniwyd gan y practis yn cael eu rheoli'n briodol gan reolwr y practis a'u rhannu â'r staff perthnasol. Gwelsom fod unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad, a llwyddo i gadarnhau bod y staff yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.]

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwastraff cyfrinachol yn cael ei storio'n briodol.

Roedd systemau gwybodaeth wedi'u diogelu gan ddefnyddio cyfrineiriau, ac roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn swyddfeydd nad oeddent yn hygyrch i'r cyhoedd.

Cadw cofnodion

Mae'r wybodaeth a ddelir mewn meddygfeydd yn defnyddio codau Read i ddarparu geirfa safonol i glinigwyr gofnodi canfyddiadau am gleifion a gweithdrefnau. Gwelsom fod gan y practis brosesau priodol ar waith i ddefnyddio codau Read i gofnodi canfyddiadau am gleifion. Nodwyd gennym fod y practis yn adolygu'r codau Read hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyrraedd safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod staff y practis yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli'r practis. Roedd cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd tîm clinigol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y timau'n cael eu cefnogi'n ddigonol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid ymhlith y meddygon teulu, a gwelsom enghreifftiau da o gydberthnasau gwaith agos a threfniadau llywodraethu clinigol.

Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y wybodaeth am hyfforddiant staff yn gyfredol, bod staff yn cael gwiriadau gan y DBS lle y bo hynny'n berthnasol, a bod gwiriadau recriwtio perthnasol yn cael eu cwblhau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod yna dîm practis cydlynol a oedd yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd tystiolaeth o gydberthnasau da rhwng aelodau'r tîm rheoli a staff y practis, a gwelsom fod morâl y staff yn uchel yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Roedd 11 o feddygon teulu partner yn y practis, ac roedd rheolwr practis yn gyfrifol am y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd.

Roedd nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y practis er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y staff. Roedd cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd ac roedd rheolwr cynorthwyol y practis yn cadw copi ohonynt. Dywedwyd wrthym, pe na bai aelod o'r staff yn bresennol, y byddai'n cael copi o'r cofnodion ac y gofynnid iddo gytuno ar unrhyw gamau priodol. Dywedodd y

staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion a oedd yn eu poeni yn agored.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, ac roedd y rhain ar gael ar-lein i'r staff. Gwelsom fod y staff wedi cael eu gofyn i'w hadolygu a'u llofnodi er mwyn cytuno â'u cynnwys ar ôl iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd tîm o staff sefydledig yn y practis, gyda llawer o aelodau o'r staff yn gweithio yno ers sawl blwyddyn. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn dangos dealltwriaeth dda o weithdrefnau'r practis.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol, a chawsant eu canmol yn fawr. Gwelsom dystiolaeth fod adolygiadau effeithiol a chadarnhaol gan gymheiriaid ar waith, a gwelsom enghreifftiau da o gydberthnasau gwaith cadarnhaol a rhwydweithiau cymorth cadarnhaol rhwng y meddygon teulu.

Gwelsom nifer o ffeiliau hyfforddiant y staff, ond ni chawsom sicrwydd digonol yn ystod y dydd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant gorfodol priodol. Nid oedd y practis yn cadw matrices hyfforddiant staff cyffredinol. Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion hyfforddiant hyn yn yr adran ar Ddarparu Gofal Diogel ac Effeithiol o'r adroddiad hwn.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom fod proses arfarnu staff ar waith a bod arfarniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod prosesau cyfyngedig ar waith i gefnogi'r broses o recriwtio staff yn ddiogel. Yn ystod yr arolygiad gwelsom nad oedd y staff wedi cael gwiriadau priodol, fel gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i gefnogi prosesau recriwtio diogel a chyflogaeth barhaus.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yn sgil y materion uchod mewn perthynas â recriwtio, mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo broses gadarn ar waith ar gyfer recriwtio a phenodi unrhyw aelodau o staff yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys cynnal y gwiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi perthnasol

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gofrestru â'u corff proffesiynol, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)⁴ neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)⁵. Mae'n rhaid iddynt hefyd ail-ddilysu eu cofrestriad gyda thystiolaeth o ymarfer a hyfforddiant ar adegau sydd wedi'u diffinio. Er mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau ei fod yn cynnal ei gofrestriad, nid oedd y practis yn cadw'r wybodaeth hon yn ganolog, ac felly ni allai warantu bod y staff yn dal i fod wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol. Gwnaethom gyngori y byddai hyn yn fuddiol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru'n briodol yn ystod ei gyflogaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Cynnal cofnod clir o hyfforddiant staff a sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol
- Rhoi polisi recriwtio clir a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i aelod newydd o staff ddechrau yn ei swydd.

⁴ <https://www.gmc-uk.org/>

⁵ <https://www.nmc.org.uk/>

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Meddygfa Tŷ Bryn

Dyddiad arolygu: 05 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Nid oedd gan y practis wiriadau wedi'u cwblhau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod perthnasol o'r staff.</p> <p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff (lle y bo hynny'n berthnasol i'w rôl) yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a'i fod yn cadw cofnod o'r gwiriad hwnnw ar ffeil, ar lefel sy'n briodol i'w rôl.</p>	7.1 Y Gweithlu	Bydd y practis bellach yn ymgymryd â phrosiect i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad gan y DBS. Byddwn yn dechrau ar unwaith gyda'r meddygon teulu a'r staff clinigol ac yna'r holl staff gweinyddol wedi hynny. Mae gennym dîm o 36 o aelodau o staff felly bydd yn cymryd o leiaf dri mis i ni gwblhau'r prosiect. Rydym wedi penderfynu defnyddio gwasanaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac wedi cysylltu â hi heddiw er mwyn cael y ffurflenni perthnasol y mae angen eu cwblhau.	Amanda Samuel	3 mis

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Nid oedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer rhoi hyfforddiant gorfodol i'r staff.</p>	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Bydd pob aelod o'r staff yn cael lefel briodol o hyfforddiant ar reoli heintiau drwy ein Prif Nyrs/Partner Rheoli Heintiau a fydd, ar y cyd â nyrsys ein dau bractis arall, yn mynychu hyfforddiant a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 9 Mawrth. Caiff yr hyfforddiant hwn ei ddiweddarau bob dwy flynedd yn unol â chanllawiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Margaret Ballard	3 mis
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod priodol o'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, atal a rheoli heintiau, dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.</p>	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed		Alison Soos	2 fis
	3.1 Gofal a Diogel Chlinigol Effeithiol	Mae lle wedi'i drefnu i bob aelod o'r staff ar gwrs hyfforddi CPR gyda Lubas Medical ar 25 Chwefror, 24 Mawrth a 31 Mawrth.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Amanda Samuel

Rôl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10 Chwefror 2020

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Tŷ Bryn

Dyddiad arolygu: 05 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Amserlen	Swyddog cyfrifol
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis sicrhau y caiff y gwasanaeth hebryngwyr ei hysbysebu'n glir i gleifion.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r polisi hebryngwr yn cael ei arddangos ar ein hysbysfyrddau ac mae cyngor wedi'i ychwanegu at ein sgriniau teledu	Ar unwaith	Dawn Foley Amanda Samuel Alison Soos
Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn galluogi cleifion i roi adborth yn uniongyrchol i'r practis, a'i fod yn	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Mae posteri bellach yn cael eu harddangos ar y sgriniau teledu a'r hysbysfyrddau sy'n annog adborth	Ar unwaith	Amanda Samuel

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Amserlen	Swyddog cyfrifol
adolygu'r adborth hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am y canlyniadau.		uniongyrchol. Wrth ymdrin ag unrhyw adborth, ymatebir yn uniongyrchol i'r claf dan sylw. Os yw'r adborth ar gyfer y gymuned ehangach, byddwn yn ei hysbysebu ar ein sgriniau teledu sy'n rhoi gwybodaeth, ein tudalen Facebook a'n gwefan. Mae gan ein Grŵp Cyfranogiad Cleifion ei hysbysfwrdd ei hun a bydd yn weithredol pan fydd hynny'n bosibl.		Dawn Foley Alison Soos
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y llenni'n cael eu cynnal i safon glinigol; • bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau. 	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae llenni untro bellach wedi cael eu gosod yn yr ystafelloedd mân lawdriniaethau, a fydd yn cael eu newid bob chwe mis. Caiff yr holl lenni eraill yn ystafelloedd clinigol y meddygon teulu eu golchi ar sail rota bob chwe mis, neu'n gynt lle bo angen.	Amanda Samuel Dawn Foley Alison Soos	Ar unwaith
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar CPR yn unol â	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Trefnwyd a thalwyd am hyfforddiant ar CPR i bob aelod o'r staff ar gyfer mis	Amanda Samuel Alison Soos	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Amserlen	Swyddog cyfrifol
chanllawiau Cyngor Dadebru y DU		Chwefror a mis Mawrth, ond yn anffodus oherwydd COVID-19 dim ond hyfforddiant mis Chwefror y bu modd i'r staff ei fynychu. Bydd pob aelod arall o'r staff yn cael ei hyfforddiant pan fydd yn ddiogel ac yn ymarferol iddo wneud hynny a bydd yn parhau i gael hyfforddiant blynyddol yn y dyfodol.	Dawn Foley	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cofnod clir o hyfforddiant staff a sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol • Rhoi polisi recriwtio clir a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i aelod newydd o staff ddechrau yn ei swydd. 	7.1 Y Gweithlu	<p>Trefnwyd hyfforddiant ar reoli heintiau i'r staff clinigol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer mis Ebrill, ond yn anffodus oherwydd COVID-19 cafodd yr hyfforddiant hwn ei ganslo a bydd pob aelod perthnasol o'r staff yn cael ei hyfforddiant pan fydd yn ddiogel ac yn ymarferol iddo wneud hynny. Bydd pob hyfforddiant yn parhau o fewn amserlenni priodol ac yn cael ei gofnodi yng nghofnodion personol y staff ac ar fatrics hyfforddiant y practis.</p> <p>Caiff pob aelod newydd a phresennol o'r staff wiriad gan y DBS (ac eithrio'r</p>	Amanda Samuel Dawn Foley Alison Soos	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Amserlen	Swyddog cyfrifol
		meddygon teulu, gan fod hyn yn un o'r gofynion ar gyfer cael eu cynnwys ar y rhestr cyflawnwyr). Cafodd hyn ei drefnu i ddechrau gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond oherwydd COVID-19 mae wedi cael ei ohirio a bydd yn dechrau cyn gynted â phosibl.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amanda Samuel

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 12 Mehefin 2020f